**EITEM AR YR AGENDA: 7**

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**ADRODDIAD AR GYFER PANEL GWEITHREDOL YR AWDURDOD TÂN**

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 25ain Ebrill 2005 |
| ADRODDIAD GAN: | **Y PRIF SWYDDOG TÂN** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Rhoi'r diweddaraf i'r aelodau am Raglen Gyfalaf yr Adran Eiddo |

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Lluniwyd yr adroddiad hwn er mwyn i'r aelodau gael y diweddaraf am statws presennol rhaglen gyfalaf Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer eiddo. *(Gweler yr Atodiad sydd ynghlwm – mae'r atodiad yn dod dan gategori eitemau busnes Rhan II, gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth sy'n gyfrinachol oherwydd, mewn rhai achosion, nad yw'r tendrau eto wedi eu derbyn neu nad yw'r hawliadau terfynol wedi eu setlo)*

2. **CEFNDIR**

2.1 Y Pencadlys newydd yn Llanelwy
Y trefniant yw cwblhau'r gwaith adeiladu erbyn canol Mai 2005. Bydd y gwaith o osod y dodrefn a'r caledwedd/systemau cyfrifiadurol yn dechrau tua'r adeg honno, ac yn cael eu cwblhau fel y gall y staff symud i mewn yn ystod y bythefnos gyntaf ym mis Mehefin 2005.

2.2 Ailfodelu Gorsaf Dân Llandudno
Penderfynwyd adolygu amseriad y rhaglen adeiladu er mwyn osgoi gwrthdaro gydag adeiladu'r archfarchnad newydd gerllaw yr orsaf dân a'r newidiadau cysylltiedig i'r system ffyrdd. Rydym wrthi'n ceisio cymeradwyaeth Rheolaeth Adeiladu'r Awdurdod Lleol ar hyn o bryd. Byddwn yn ceisio'r tendrau unwaith y byddwn wedi derbyn hwnnw; ar hyn o bryd rhagwelir y bydd hynny ddiwedd Ebrill.

2.3 Ailfodelu Gorsaf Dân Johnstown
Datryswyd yr holl faterion yn ymwneud â suddiant posib oherwydd yr hen waith cloddio yn yr ardal, dyluniwyd a gosodwyd y sylfeini er mwyn cymryd ystyriaeth o gyflwr cyffredinol y tir. Mae'r gwaith adeiladu'n mynd rhagddo ar y safle, a'r disgwyl yw cwblhau'r gwaith erbyn dydd Gwener 13eg Mai 2005.

2.4 Rhagor o waith adeiladu
Mae'r garej ychwanegol yng Ngorsaf Dân Bangor ar gyfer cadw'r Uned Ymateb i Ddigwyddiadau (IRU) bellach wedi ei chwblhau ac yn cael ei defnyddio. Derbyniwyd ac agorwyd tendrau ar gyfer y gwaith ailfodelu yn y Rhyl a Llanrwst. Mae'r prosiectau hyn yn destun adroddiadau eraill ar yr agenda fusnes bresennol.

3. **ARGYMHELLIAD**

3.1 Bod yr aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.